

# Y FILLTIR AUR

Dathliad o fywyd pump o enwogion  
oddi fewn i filltir sgwâr  
Llangernyw

# THE GOLDEN MILE

A celebration of the lives of five eminent  
former residents of a square mile of  
Llangernyw

## Dr Hywel Cernyw Williams

Mae llais y gwylwr oddi draw,  
Yn dweud bod bore llon gerllaw-  
Cymylau'r nos yn cilio 'mhell  
O flaen goleuni dyddiau gwell;  
A daw teyrnasoedd daear lawr  
I gyd yn eiddo'n Harglwydd mawr.

Fel awgryma'r enw, ganwyd Dr Hywel Cernyw Williams yn Llangernyw, yn fab i Moses a Mary Williams ar y 13eg o Ebrill 1843. Dechreuodd ymddiddori mewn llenyddiaeth yn ifanc. Yr oedd ei dad yn cynnal yr Eisteddfod deuluol ar aelwyd ei gartref yn Nhan y Ffôs, felly yr oedd Hywel yn hydysg yn y grefft o gynganeddu pan oedd yn fachgen ysgol. Ceir penillion ac englynion ganddo yng nghylchgrawn 'Yr Athraw' yn 1860, pan oedd ond yn 17 mlwydd oed.

Derbyniwyd ef i Coleg y Bedyddwyr yn Llangollen yn Ionawr 1863, ac ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth yn Staylittle a Dylife yn Rhagfyr 1865 gan dreulio tair blynedd yno. Ym 1868 symudodd i gymryd gofal o eglwysi'r Bedyddwyr yng Nghynwyd, Corwen a Charrog. Rhoddodd y gorau i ofalu am yr eglwys yng Nghanrog ym 1879 gan gyfyngu ei weinidogaeth i'r ddwy eglwys arall hyd 1918, pan ymdeolodd o'r weinidogaeth feunyddiol. Pregethai yn aml wedi hynny yn eglwysi'r cylch. Am rai blynyddoedd gwasanaethodd fel athro yng Ngholeg y Bedyddwyr, Llangollen. Bu'n llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru a Mynwy rhwng 1892 ac 1893.

Roedd yn ddyn amryddawn tu hwnt gan ei fod yn llenor o gryn safon ac ymseg y gorau o feirdd ei gyfnod. Yn ogystal, cyfansoddodd amryw o emynau, gan gynnwys chwech yn y llyfr emynau presennol. Cyhoeddodd amryw weithiau a chofiannau, gwaith diwinyddol a hanesyddol. Yn 1932, anrhodeddwyd ef gan Brifysgol Cymru â gradd Doethur mewn Diwinyddiaeth.

Bu farw ar y 3ydd o Fai 1937 yn 94 mlwydd oed, a chladdwyd ef ym mynwent Corwen.

Tan y Ffôs  
(1843-1937)



As the name suggests, Dr Hywel Cernyw Williams, was born in Llangernyw, on the 13th of April 1843, the son of Moses and Mary Williams. He began to take an interest in literature at a young age. The family Eisteddfod was held at his home, Tan y Ffôs, and so Hywel as a school boy was accomplished in the art of 'cynghaneddu'. Verses and 'englynion' written by him appeared in 'Yr Athraw' magazine in 1860, when he was just 17 years old.

He was enrolled at the Baptist College in Llangollen in January 1863, and was ordained to the ministry at Staylittle and Dylife in December 1865, remaining there for three years. In 1868, he went to take charge of the Baptist churches at Cynwyd, Corwen and Carrog, giving up the latter in 1879, concentrating on the two former churches until 1918, when he retired from everyday ministry. Even so, he continued to preach regularly in the neighbouring churches. For some years he was a tutor at the Llangollen Baptist College. He was President of the Baptist Union of Wales and Monmouth from 1892 to 1893.

He was an extremely versatile man; as his writings include biographies, anthologies of poetry, theological works and historical sketches. He was also a hymn writer of note, and six of his hymns are included in the current hymn book. In 1932, the University of Wales conferred on him the honorary degree of Doctor of Divinity.

He died on the 3rd of May 1937 aged 94 years old, and was buried in Corwen.



Tan y Ffôs heddiw.  
Tan y Ffôs today.